Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

# CANLLAWIAU AR GYNNIG A DERBYN RHODDION NEULETYGARWCH

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn benderfynol o sicrhau bod diwylliant a naws onest ac agored yn y sefydliad.

**1.2** O bryd i'w gilydd, gall y Comisiynydd a'i thîm gael cynnig rhoddion neu letygarwch wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau neu eu gweithgareddau a nod y Canllawiau hyn yw nodi ac egluro sut y dylid trin cynigion o'r fath.

**1.3** Yr egwyddor sylfaenol bob amser yw y dylid cymryd gofal mawr wrth ymdrin ag unrhyw rodd neu letygarwch a gynigir. Prif ddyletswydd y Comisiynydd a'r Swyddogion o dan yr amgylchiadau hyn yw sicrhau nad oes achos o wrthdaro buddiannau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Dylai'r Comisiynydd a'r Swyddogion y cynigir rhodd neu letygarwch iddynt hefyd ystyried barn neu ganfyddiad posibl aelod cyffredin o'r cyhoedd am y cynnig. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid ceisio cyngor a dylai'r Comisiynydd a'r Swyddogion fel ei gilydd gofio bod angen bod yn agored ac yn onest am gynigion o'r fath bob amser.

**1.4** Caiff y Canllawiau hyn eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.

## 2. RHODDION

**2.1** Wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau neu weithgareddau, ni ddylai'r Comisiynydd na'r Swyddogion dderbyn rhoddion personol sylweddol gan gontractwyr a chyflenwyr allanol. Fodd bynnag, gellir ystyried ei bod yn rhesymol derbyn rhoddion bach, symbolaidd heb roi gwybod amdanynt. Gallai enghreifftiau o roddion derbyniol gynnwys placiau, mygiau, calendrau, pinnau ysgrifennu neu ddyddiaduron poced ag enw neu arwyddnod y rhoddwr.

**2.2** Rhaid i bob rhodd sy'n werth mwy na £25 gael ei hawdurdodi a'i chofnodi'n briodol fel a ganlyn:

(a) Dylai pob Swyddog a gyflogir gan y Comisiynydd ac nad yw dan reolaeth na chyfarwyddyd y Prif Gwnstabl geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig benodol y Pennaeth Staff er mwyn derbyn rhoddion a dylai unrhyw roddion a dderbynnir gael eu cofnodi gan y Pennaeth Staff mewn Cofrestr a gedwir at y diben hwnnw;

(b) Dylai'r Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol gytuno â'r Comisiynydd cyn derbyn rhoddion, a chofnodi unrhyw roddion a dderbynnir, ynghyd â

manylion yr ymgynghoriad, mewn Cofrestr a gedwir gan y Pennaeth Staff at y diben hwnnw;

(c) dylai'r Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a'r Comisiynydd Cynorthwyol gofnodi rhoddion a dderbynnir mewn Cofrestr a gedwir gan y Pennaeth Staff at y diben hwnnw.

**2.3** Lle derbynnir unrhyw rodd (beth bynnag fo'i gwerth), dylid rhoi gwybod i'r rhoddwr bob amser na fydd derbyn y rhodd yn rhoi unrhyw fantais i'r rhoddwr hwnnw pan fydd yn delio â'r Comisiynydd neu'r Heddlu.

**2.4** Dylid gwrthod pob rhodd amhriodol a'i dychwelyd ag esboniad cwrtais ond cadarn.

**2.5** Heblaw am gymryd rhan mewn cynlluniau consesiynol a drefnir gan Gymdeithasau Staff, Undebau Llafur neu grwpiau eraill yn benodol er budd ei aelodau ei hun, ni ddylai'r Comisiynydd na'r Swyddogion fanteisio ar wasanaethau contractwyr a gyflogir gan y Comisiynydd, ar gyfer caffael deunyddiau, llafur neu beiriannau am brisiau cost, masnach neu ostyngol. Er y gall hyn arwain at arbedion personol o gymharu â llwybrau cyflenwi eraill mewn rhai achosion, ni ellir gorbwysleisio na derbyn y risg y byddai'r Comisiynydd neu'r Swyddog yn wynebu sefyllfa chwithig yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd y gofyniad penodol hwn yn gymwys i'r gostyngiadau hynny a all fod ar gael yn gyffredinol i unrhyw aelod o'r cyhoedd.

**2.6** Dylai Swyddogion sy'n gyfrifol am brynu nwyddau a chyflenwadau ar ran y Comisiynydd nodi mai'r Comisiynydd sy'n berchen ar unrhyw gynigion hyrwyddol a roddir gan gyflenwyr.

## 3. LLETYGARWCH

**3.1** Dylai'r Comisiynydd neu'r Swyddog sy'n cael cynnig lletygarwch o ganlyniad i'w ddyletswyddau neu weithgareddau ystyried yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn ofalus. Bydd graddfa neu swm y cynnig yn berthnasol, ac felly hefyd yr amlder posibl a'r personau y mae'r cynnig wedi'i gyfeirio atynt. Er enghraifft, byddai'n amhriodol, ac eithrio mewn achosion prin iawn, derbyn lletygarwch gan gwmni, partneriaeth, grŵp o unigolion neu un unigolyn lle gall y cynigydd fod yn ceisio contract neu ryw fantais ariannol neu fantais arall gan y Comisiynydd neu'r Heddlu.

**3.2** Diffinnir lletygarwch fel unrhyw beth y tu hwnt i gynnig diodydd dialcohol a lluniaeth ysgafn a fyddai'n cael eu hystyried yn rhesymol fel cynulliad cymdeithasol arferol. Dim ond os oes angen gwirioneddol i gyflwyno gwybodaeth neu gynrychioli'r Comisiynydd yn y gymuned y dylai'r Comisiynydd neu Swyddogion dderbyn cynigion lletygarwch, <u>a dylid osgoi lletygarwch mewn sefyllfaoedd lle mai'r Comisiynydd neu'r Swyddog fyddai'r unig westai</u>. Dim ond pan fyddant yn rhan o fywyd y gymuned y dylid derbyn cynigion i fynychu digwyddiadau cymdeithasol neu chwaraeon, neu pan ddylid gweld y Comisiynydd yn cael ei gynrychioli.

**3.3** Rhaid i gynigion lletygarwch sy'n werth mwy na £25 gael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n briodol fel a ganlyn:

(a) Dylai pob Swyddog a gyflogir gan y Comisiynydd ac nad yw dan reolaeth na chyfarwyddyd y Prif Gwnstabl geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig benodol y Pennaeth Staff er mwyn derbyn lletygarwch a dylai unrhyw letygarwch a dderbynnir gael ei gofnodi gan y Pennaeth Staff mewn Cofrestr a gedwir at y diben hwnnw;

(b) Dylai'r Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol gytuno â'r Comisiynydd cyn derbyn lletygarwch, a chofnodi unrhyw letygarwch a dderbynnir, ynghyd â manylion yr ymgynghoriad, mewn Cofrestr a gedwir gan y Pennaeth Staff at y diben hwnnw;

(c) Dylai'r Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a'r Comisiynydd Cynorthwyol gofnodi lletygarwch a dderbynnir mewn Cofrestr a gedwir gan y Pennaeth Staff at y diben hwnnw a, chyn belled ag y bo modd, dylai Swyddog neu rywun o'r Heddlu fynd gyda nhw pan fyddant yn derbyn lletygarwch.

**3.4** Wrth dderbyn lletygarwch awdurdodedig, dylai'r Comisiynydd a'r Swyddogion fod yn arbennig o sensitif i amseru'r cynnig mewn perthynas â phenderfyniadau y gall y Comisiynydd/Heddlu fod yn eu gwneud sy'n effeithio ar y rhai sy'n darparu lletygarwch.

**3.5** Bydd achosion pan fydd y Comisiynydd a Swyddogion yn derbyn lletygarwch drwy fynychu cynadleddau, seminarau a chyrsiau perthnasol yn dderbyniol pan fydd yn amlwg bod y lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol, lle mae'r Comisiynydd yn cydsynio ymlaen llaw a phan fydd y Comisiynydd yn fodlon nad yw unrhyw benderfyniadau prynu wedi'u peryglu.

**3.6** Lle bydd angen cynnal ymweliadau er mwyn archwilio cyfarpar neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â dyfarnu unrhyw gontract, dylai'r Comisiynydd a'r Swyddogion sicrhau bod swyddfa'r Comisiynydd yn talu am gostau teithio a llety ar gyfer ymweliadau o'r fath er mwyn osgoi peryglu uniondeb penderfyniadau prynu dilynol.

**3.7** Pan fydd yn rhaid gwrthod lletygarwch, dylid rhoi gwybod i'r cynigydd yn gwrtais ond yn gadarn am y gweithdrefnau a'r safonau.

## 4. Y GOFRESTR

**4.1** Bydd y Gofrestr y mae'n ofynnol i'r Pennaeth Staff ei chadw o dan ddarpariaethau'r Canllawiau hyn ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio, a chaiff ei gosod ar wefan y Comisiynydd bob chwarter.

## 5. CYNGOR

**5.1** Os bydd unrhyw amheuaeth neu anhawster, er enghraifft o ran gwerth neu briodoldeb derbyn rhoddion neu letygarwch, bydd cyngor ar gael naill ai gan y Pennaeth Staff neu'r Prif Swyddog Ariannol, fel yr ystyrir yn briodol yn unol â'r amgylchiadau penodol.